Ordnance Survey® Arolwg Ordnans®

Arolwg Ordnans/Ordnance Survey
Romsey Road
SOUTHAMPTON
United Kingdom
SO16 4GU

Canolfan Gysylltu Cwsmeriaid: 0845 337 3133
Ffacs: (+44) 023 8079 2721
Ffôn destun: 023 8079 2906
(defnyddwyr â nam ar eu clyw yn unig os gwelwch yn dda)
y we: www.ordnancesurvey.co.uk
Llinell Cymorth Cymraeg: 08456 050504

Awst 2008

Ein cyf: FM7W

Annwyl Riant/Warcheidwad

***Mapiau rhad ac am ddim i ddisgyblion 11 oed* – 2008 yn darparu map yr Arolwg Ordnans yn rhad ac am ddim i'ch plentyn**

Heddiw, mae'ch plentyn wedi derbyn map Explorer™ graddfa 1:25 000 yr Arolwg Ordnans yn rhad ac am ddim yn yr ysgol. Rydym yn anfon y mapiau hyn i ddisgyblion Blwyddyn 7/Primary 7 i'w helpu i ddatblygu eu sgiliau darllen mapiau. Eiddo eich plentyn yw'r map, ac un ef neu hi ydyw i'w gadw.

Ambell waith fe fydd yr athrawon yn gofyn i'r disgyblion ddod â'u mapiau i'r ysgol. Byddant yn cael eu defnyddio mewn gwersi daearyddiaeth, lle mae dysgu sut i ddefnyddio map yn rhan o'r cwricwlwm cenedlaethol, ond mae'n bosibl y byddant yn cael eu defnyddio mewn pynciau eraill hefyd. Fe fydd y rhan fwyaf o ysgolion wedi dewis map sy'n cwmpasu ardal yr ysgol, neu rywle y maent yn ymweld ag ef yn rheolaidd gyda'r disgyblion. Fe fydd llawer o blant yn ddigon ffodus i weld eu cartref a'u hysgol ar y map.

I helpu'ch plentyn i ddysgu sut i ddefnyddio'r map, mae hefyd wedi derbyn taflen o'r enw *Darllen map heb drafferth yn y byd*, sydd wedi ei hysgrifennu'n benodol ar gyfer disgyblion. Mae'n bleser gennym eleni gynnwys cystadleuaeth gyda'r cyfle i ennill diwrnod diddorol gyda Time Team. Os yw'ch plentyn yn dymuno rhoi cynnig ar y gystadleuaeth, mae'n rhaid ichi roi eich caniatâd trwy lofnodi'r ffurflen gais.

Gallwch helpu eich plentyn i wella ei sgiliau mapio trwy ofyn iddo/iddi ddangos lleoedd ichi ar ei fap/ei map, a'i (h)annog i'w ddefnyddio pan fydd allan.

Diolch ichi o flaen llaw am helpu eich plentyn i fwynhau dysgu gyda'r map rhad ac am ddim.

Yr eiddoch yn gywir

Roger Jeans
Education Manager

Busnes yn Gymuned GWOBRAU 2008